***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 1882

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Atodol Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 2002

**Adolygiadau**

**14.**—(1) Gall Awdurdod Iechyd, ac os yw'n derbyn cais ysgrifenedig gan y meddyg i wneud hynny rhaid iddo, adolygu penderfyniad Awdurodd Iechyd i—

(a) osod neu amrywio amodau a roddwyd o dan reoliad 8;

(b) osod neu amrywio amodau a roddwyd o dan reoliad 12 heblaw pan gafodd yr amodau eu rhoi gan yr FHSAA;

(c) atal dros dro feddyg o dan reoliad 13 (1)(a) neu (b), heblaw pan gaiff yr atal dros dro ei roi gan yr FHSAA neu ei fod yn parhau drwy orchymyn yr FHSAA.

(2) Ni all meddyg wneud cais i gael penderfyniad Awdurod Iechyd wedi'i adolygu hyd nes y bydd y cyfnod o dri mis wedi dod i ben gan ddechrau â dyddiad penderfyniad yr Awdurod Iechyd neu, yn achos cynnwys yn amodol o dan reoliad 8, o'r dyddiad pan for' Awdurdod Iechyd yn cynnwys enw'r meddyg yn y rhestr atodol.

(3) Wedi i adolygiad gael ei gynnal, ni all y meddyg wneud cais am adolygiad pellach cyn y daw'r chwe mis o ddyddiad y penderfyniad ar yr adolygiad diwethaf i ben.

(4) Os yw Awdurdod Iechyd yn penderfynu adolygu ei benderfyniad o dan y rheoliad hwn i gynnwys yn amodol, tynnu'n amodol neu atal meddyg dros dro, bydd—

(a) yn hysbysu'r meddyg yn ysgrifenedig o unrhyw honiad yn erbyn y meddyg;

(b) yn rhoi rhybudd i'r meddyg o ba gamau y mae'r Awdurdod Iechyd yn eu hystyried ac ar ba sail;

(c) yn rhoi cyfle i'r meddyg wneud sylwadau ysgrifenedig i'r Awdurdod Iechyd o fewn 28 diwrnod i ddyddiad yr hysbysiad o dan is-baragraff (b);

(ch) yn rhoi cyfle i'r meddyg roi ei achos mewn gwrandawiad llafar gerbron yr Awdurdod Iechyd, os bydd y meddyg yn gwneud cais am hynny o fewn y cyfnod 28 diwrnod a grybwyllwyd yn is-baragraff (c).

(5) Os na cheir unrhyw sylwadau o fewn y cyfnod a nodwyd ym mharagraff (4)(c), bydd yr Awdurdod Iechyd yn hybsysu'r meddyg am ei benderfyniad, y rhesymau amdano (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnwyd arnynt), ac unrhyw hawl i apelio o dan reoliad 15.

(6) Os oes sylwadau, rhaid i'r Awdurdod Iechyd eu cymryd i ystyriaeth cyn y bydd yn dod i'w benderfyniad.

(7) Rhaid i'r Awdurdod Iechyd hysbysu'r meddyg am ei benderfyniad, y rhesymau drosto (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnwyd arnynt), unrhyw hawl i apelio o dan reoliad 15 a'r hawl am adolygiad pellach o dan reoliad 14.

(8) Os yw Awdurdod Iechyd yn penderfynu adolygu ei benderfyniad i osod amodau o dan reoliad 8, gall yr Awdurdod Iechyd amrywio'r amodau, osod amodau gwahanol, dynnu'r amodau neu dynnu'r meddyg oddi ar y rhestr.

(9) Os bydd Awdurdod Iechyd yn penderfynu adolygu ei benderfyniad i dynnu enw'n amodol o dan reoliad 12, gall yr Awdurdod Iechyd amrywio'r amodau, osod amodau gwahanol, neu dynnu'r meddyg oddi ar y rhestr.

(10) Os bydd Awdurdod Iechyd yn penderfynu adolygu ei benderfyniad i atal dros dro feddyg o dan reoliad 13(1)(a) neu (b), gall yr Awdurdod Iechyd benderfynu gosod amodau neu dynnu'r meddyg oddi ar ei restr.